**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Mehefin 2015**

**PERFFORMIAD ARIANNOL 2014-2015**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2014-15.

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Mehefin 2015 i adolygu ei gynnwys cyn ei argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgarwch ariannol am y flwyddyn 2014-15 er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

4 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu gwariant refeniw 2014-15 o'i gymharu â'r gyllideb, gyda'r dadansoddiad ariannol yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn rhoi sylwadau am y cronfeydd a'r darpariaethau sydd gan yr Awdurdod; ac mae'r darpariaethau a'r newidiadau arfaethedig yn Atodiad B. Mae adran nesaf yr adroddiad yn edrych ar gynlluniau a gafodd arian grant, gyda dadansoddiad manwl yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod y gweithgarwch yn y flwyddyn mewn perthynas â chyfalaf, a gellir cael y manylion yn Atodiad D.

## Cefndir

5 Cytunodd yr Aelodau mai'r flaenoriaeth wrth osod y gyllideb oedd cadw lefel gyfredol y ddarpariaeth a chyflawni hefyd mewn perthynas â'r amcanion sydd yn y Cynllun Gwella; cynnal 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref; a darparu'r gofal tân ac achub gorau yng Ngogledd Cymru drwy geisio opsiynau gwahanol i'r System RDS (ar gael yn ôl y galw). Fodd bynnag, oherwydd effaith y setliad llywodraeth leol a'r gostyngiad mewn cyllid i'r awdurdodau cyfansoddol, cytunodd yr Aelodau i osod cyllideb wedi ei rhewi, gydag adnoddau eraill yn cwrdd ag unrhyw bwysau chwyddiannol. Pan osodwyd y gyllideb disgwylid mai rhyw £406k fyddai'r pwysau chwyddiannol felly neilltuwyd arian o'r gronfa gyffredinol i ymorol am y diffyg yn y gyllideb.

## Gweithgarwch Refeniw

### Gweithwyr

6 Fel y gwelir yn y graff, mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau; 68% yn 2014-15. Am y tair blynedd flaenorol arbedodd yr Awdurdod £2.4m. I sicrhau'r arbedion hyn cyflawnodd yr Awdurdod nifer o opsiynau a ddewiswyd gan yr Aelodau, gan gynnwys newidiadau i'r system gylchrestru; ail-strwythuro rheolwyr; adolygiad o ardaloedd Peiriannau Uchel; staffio Diogelwch Tân Cymunedol; a staffio Gwasanaethau Cefnogol. Yn gyffredinol, roedd y gweithlu 9% yn llai dros y cyfnod hwn ond er gwaethaf y gostyngiadau hyn roedd yr Awdurdod yn parhau i gyflawni'n llwyddiannus mewn perthynas â'i amcanion.

7 Mae rhan fawr o'r tanwariant ar gyflogau yn ymwneud â diffoddwyr tân amser cyflawn, sef £553k. Mae amryw o ffactorau wedi cyfrannu at danwariant mewn perthynas â diffoddwyr tân ac yn cynnwys y canlynol:-

- mae nifer o'r staff yn rhan o'r llu ond bod eu costau cyflogau llawn wedi eu dileu yn erbyn tâl salwch neu famolaeth;
- gweithio llai o oriau ychwanegol neu oramser rhagdrefnedig arall oherwydd tynnwyd hyn ymaith fel rhan o'r gweithredu nad yw'n streic (ASOS) drwy gydol 2014.
- llai o oriau gwaith drwy gydol y flwyddyn oherwydd streicio.

8 Mae gorwariant mewn perthynas â chyllideb pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn. Nid oedd y rhain yn rhan o'r amcangyfrif gwreiddiol, ac nid ydynt yn cael eu hariannu trwy'r cyfrif pensiynau.

9 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i nifer o swyddi gweigion yn cael eu llenwi yn hwyrach na'r disgwyl.

10 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant cyflogau yn gysylltiedig â diffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw (system RDS), sef £561k. Mae'r aelodau wedi cael gwybod am drafferthion recriwtio diffoddwyr tân i'r System RDS, ac er bod ymgyrch recriwtio wedi cael ei chynnal, mae'r nifer yn dal yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer, ac mae hynny wedi arwain at arbedion mewn ffioedd cadw a ffioedd ymarfer. Er mwyn lliniaru'r effaith, mae'r Gwasanaeth wedi cyflogi 18 o swyddi diffoddwyr tân gwledig ar y system amser cyflawn i ddarparu gofal ar orsafoedd RDS ac amser cyflawn pan fo angen.

11 Mae'r 18 o swyddi diffoddwyr tân gwledig ar y system amser cyflawn yn rhai â chontract i weithio o leiaf 21 o oriau yr wythnos, gyda'r disgwyl yn wreiddiol y byddent yn gweithio 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Fodd bynnag, oherwydd y bu'n rhaid iddynt ymorol am y diffyg yn yr oriau ychwanegol oherwydd fod Undeb yr FBU wedi tynnu ymaith yr oriau ychwanegol fel rhan o'r gweithredu nad yw'n streic (ASOS), mae'r diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn wedi bod yn gweithio hyd at 42 o oriau yr wythnos. Arweiniodd hyn at orwariant yn y gyllideb wreiddiol, ond yn gwrthbwyso hyn mae arbedion ar y gyllideb amser cyflawn.

12 Oherwydd nifer uwch y recriwtiaid yn ystod y flwyddyn, mae £42k o orwariant yn y gyllideb hyfforddiant.

13 Mae'r tanwariant yng nghyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Cynorthwyol sydd heb ei llenwi eto yn dilyn ymddeoliad y sawl a oedd yn dal y swydd yn flaenorol.

## Safleoedd

14 Mae gorwariant yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd i rai o'r eitemau bychain o wariant gael eu hailddosbarthu o'r cyfalaf i'r refeniw. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o arbedion yn y blynyddoedd i ddod ar ffioedd ariannu cyfalaf oherwydd y bydd y costau refeniw yn llai. Peth darbodus hefyd oedd dileu'r costau am ad-leoli safle Llys Conwy, hyn yw £128k o'r gorwariant.

15 Mae'r costau ynni wedi codi'n sylweddol dros y blynyddoedd, ac er mwyn lleihau faint a ddefnyddir a'r costau, gosodwyd mesurau sy'n cael eu goruchwylio gan swyddog monitro ynni (swydd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru). Mae'r mesurau wedi arwain at sicrhau bod y costau ynni o fewn y gyllideb a dim ond fymryn yn uwch na gwariant y flwyddyn flaenorol (£3k yn uwch na'r llynedd).

16 Ar y gyllideb safleoedd, mae tanwariant ar Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Mae'r gostyngiad mewn costau yn ganlyniad i newidiadau i werthoedd ardrethol nifer o safleoedd ar ôl i arbenigwr allanol gael ei gomisiynu i gynnal ailbrisiad. Bu hyn yn fuddiol iawn, gyda rhai ad-daliadau'n cael eu hôl-ddyddio i 2010.

## Cludiant

17 Ar y cyfan, mae gorwariant o £11k yn y gyllideb Cludiant. Bu costau ychwanegol yn gysylltiedig â threialu'r defnydd o ddiffoddwyr tân gwledig hyblyg ar y system amser cyflawn i ddarparu gofal ar nifer o orsafoedd; prynu cyfarpar newydd ar gyfer y fflyd; a chynnydd mewn costau yswiriant. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd y costau ychwanegol hyn gan arbedion ar danwydd a chostau atgyweirio cerbydau oherwydd bu effaith ar y ffrydiau gwaith o ganlyniad i'r gweithredu diwydiannol.

## Cyflenwadau

18 O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, mae gorwariant ar Offer yr Ochr Weithredol oherwydd prynwyd esgidiau tân newydd yn gynt na'r disgwyl er mwyn gallu eu caffael gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Cost yr esgidiau tân oedd £78k.

19 Mae tanwariant ar gostau Cyfrifiadurol oherwydd bod trwyddedau a chontractau cynnal a chadw wedi cael eu hailnegodi. Arweiniodd hyn at gostau is o'u cymharu â'r gyllideb wreiddiol.

20 Mae tanwariant ar gostau Cysylltiadau oherwydd bod costau Firelink yn uwch na'r disgwyl o ganlyniad i ffi mynegai chwyddiant annisgwyl. Cytunwyd ar hyn erbyn hyn.

21 Bu mwy yn gymwys am hawliadau cynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol a deithiwyd a'r oriau a weithiwyd gan ddiffoddwyr tân yn darparu gofal ar gyfer gorsafoedd gwledig. Mae £10k o orwariant yn y gyllideb cynhaliaeth.

22 Bydd y gwariant ar brosiectau arbennig megis y 'Cyd-Grŵp Gwasanaethau Brys' (JESG) yn llai na'r gyllideb oherwydd bod lefelau gweithgarwch yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn gwrthbwyso'r tanwariant mae gostyngiad yn y cyllid. Dangosir hyn dan y pennawd incwm 'Cynllunio ar gyfer Argyfyngau'.

**Gwasanaethau Cefnogol**

23 Mae'r tanwariant at gostau Cynnal a Chadw Tiroedd oherwydd bod aildendro'r contract mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru wedi arwain at gostau is.

24 Mae'r gost i'r Awdurdod am Reoli Cyfleusterau wedi cynyddu eleni. Neilltuwyd Rheolwr Prosiect ychwanegol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub oherwydd fod cynnydd yn y prosiectau cyfalaf sy'n cael eu rheoli gan y tîm eleni. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y costau wedi ei dalu'n rhannol gan incwm ychwanegol wedi ei godi ar y rhaglen gyfalaf fel ffioedd.

**Cyllid Cyfalaf**

25 Mae ffioedd dyledion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin, ynghyd â'r defnydd o fenthyciadau tymor byr y tu allan i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r oedi angenrheidiol ar brosiect Tân ac Ambiwlans Wrecsam ac ailamserlennu prosiectau Tywyn a Nefyn. Sicrhawyd costau llog hefyd drwy 'fenthyca'n fewnol', sef defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

26 Mae ffioedd prydlesu yn is na'r gyllideb o ganlyniad i ailstrwythuro'r portffolio prydlesu y llynedd, gan arwain at lai o gostau refeniw a phrynu allan y cerbydau les a oedd yn weddill.

### Incwm

27 Mae'r incwm yn gyffredinol fymryn yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Bu gostyngiad i'w groesawu yn y galwadau am wasanaethau arbennig ond arweiniodd hyn at lai o incwm na'r hyn a ddisgwyliwyd pan osodwyd y gyllideb. Mae'r gostyngiad yn y grant Cynllunio ar gyfer Argyfyngau yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y costau dan bennawd JESG yn y gyllideb. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae incwm o Ffioedd Cyfalaf wedi cynyddu oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen ar brosiectau cyfalaf.

## Tanwariant

28 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Medi, cytunodd yr Aelodau i neilltuo £300k o'r tanwariant i brynu cerbydau a chyfarpar sydd eu hangen ar gyfer y Diffoddwyr Tân Gwledig newydd ar y System Amser Cyflawn. Adlewyrchwyd hyn yn y gwir swm fel rhan o'r 'Gwariant Cyfalaf Cyllid Uniongyrchol'.

29 Mae'r Awdurdod wedi prynu Camerâu Delweddu Thermol, ac er mwyn gwneud arbedion ar gyllidebau cyllid cyfalaf yn y dyfodol cytunodd yr Aelodau y bydd y cyfarpar cyfalaf hwn yn cael ei brynu drwy gyfraniad o'r refeniw. Cost y cyfarpar yw £102k, a dangosir hyn fel rhan o 'Wariant Cyfalaf Cyllid Uniongyrchol'.

30 I leihau'r gyllideb refeniw yn y dyfodol mae'r prydlesau gweithredu sy'n weddill wedi cael eu prynu, felly yn y dyfodol ni fydd yr Awdurdod yn talu unrhyw ffioedd prydlesu mwyach. Y gost i'r Awdurdod am 'brynu allan' yw £131k, a gwariant cyfalaf ydyw gan ein bod erbyn hyn yn prynu'r cerbydau. Er mwyn gwneud arbedion yn y dyfodol ar gostau cyllid cyfalaf cytunodd yr Aelodau i ariannu'r cerbydau â chyfraniad o'r refeniw.

31 Cyflwynwyd adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 27 Hydref 2014 yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio. Bydd y contract presennol, a gaffaelwyd yn genedlaethol, yn dod i ben yn Rhagfyr 2016 ac mae'n bosibl y bydd y gwasanaeth yn mynd i gostau ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol:-

a. Os na chyflawnir yr amserlenni ar gyfer trosglwyddo, efallai y bydd angen ymestyn y contract presennol, a gallai hynny fod yn llawer drutach.
b. Mae'r system gyfredol yn cael ei hariannu'n rhannol gan grant gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes sicrwydd y bydd hyn yn parhau.

32 Mae rhai Awdurdodau Tân ac Achub yn darparu hyd at £1filiwn i ymorol am gostau trosglwyddo. Oherwydd y risgiau hyn cytunodd yr Aelodau i roi £300k mewn cronfa wrth gefn i ymorol am unrhyw gostau ychwanegol a allai fod yn rhai mawr. Dangosir hyn fel rhan o'r 'Cyfraniad i Gronfeydd wrth gefn'.

33 Mae'r Aelodau wedi cael gwybod y bydd y grant ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael ei leihau'n sylweddol yn y flwyddyn i ddod. Oherwydd y pwysau ar y gyllideb yn 2015-16 ni fu modd neilltuo cyllideb refeniw ychwanegol i wrthbwyso'r diffyg yn y grant. Felly, peth darbodus yw neilltuo rhywfaint o'r tanwariant sy'n weddill i gronfa benodol wedi ei chlustnodi i ymorol am y diffyg yn y grant. Caiff hyn ei gynnwys yn y 'Cyfraniad i Gronfeydd wrth gefn'.

## Cronfeydd wrth gefn

34 Cronfeydd wrth gefn yw 'cam gwirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Roedd gan yr Awdurdod £1,724k mewn cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2014, ac oherwydd ei fod wedi rheoli'r gyllideb yn effeithiol, nid oedd wedi gorfod defnyddio'r gronfa hon i ariannu gwariant yn 2014-15. Cafodd gordaliad a wnaed yn 2013-14 ei ad-dalu yn ystod y flwyddyn ac ychwanegwyd hwn i'r Gronfa Gyffredinol. Arweiniodd hyn at gynnydd o £92k yn y Gronfa Gyffredinol. Peth darbodus i'r Awdurdod yw cadw Cronfa Gyffredinol i ymorol am unrhyw ymrwymiadau amodol a allai godi.

35 Y Gronfa a Glustnodwyd sy'n weddill ac a gymeradwywyd gan yr Aelodau y llynedd yw'r Gronfa Log, sef £100k. Sefydlwyd y gronfa hon i wrthbwyso'r risg o gynnydd mewn cyfraddau llog, a gofynnodd y Pwyllgor Archwilio amdani yn arbennig.

36 Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r cronfeydd ychwanegol a glustnodwyd, sef £525k, wedi cael eu sefydlu i ymorol am gostau trosglwyddo'r prosiect radio a'r gostyngiad yn yr arian grant ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

37 Sefydlwyd y Gronfa Gyfalaf i'w defnyddio i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf pan fo'n fwyaf manteisiol i wneud hynny, a hynny er mwyn gwneud y gorau o'r arbedion a geir drwy leihau costau dyledion cyllidebau yn y dyfodol. Eleni, defnyddiwyd £700k i ariannu'r rhaglen gyfalaf i leihau costau dyledion yn y dyfodol.

**Darpariaethau**

38 Mae'r Awdurdod wedi gallu cadw Darpariaethau erioed. Darpariaeth yw 'arian wedi ei neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'. Rhoddir manylion y darpariaethau isod.

39 Mae'r Awdurdod yn dal "Darpariaeth Bensiynau" i ymorol am daliadau i'r gronfa bensiynau i ariannu ymddeoliadau ar sail afiechyd, ac i ymorol am gostau unrhyw lwmpsymiau ar sail afiechyd nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn. Ni fu unrhyw symudiad yn y ddarpariaeth eleni oherwydd bu'n bosibl ariannu'r costau hyn eleni o'r gyllideb refeniw.

40 Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o setliad yr ôl-daliad i ddiffoddwyr tân y system RDS yn ystod 2012-13 (£505k). Roedd taliadau'n dal i gael eu gwneud yn 2013-14, a bu rhai hawliadau yn 2014-15. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu yn 2015-16 i asesu'r ymrwymiad sy'n aros.

41 Ni ddefnyddiwyd yr hawliad Pensiwn Ôl-weithredol y System RDS yn ystod y flwyddyn. Disgwylir y caiff yr hawliadau cyntaf eu gwneud yn ystod 2015-16. Dylai'r ddarpariaeth o £636k fod yn ddigon i ymorol am yr holl ymrwymiadau oherwydd ni ddisgwylir y bydd yr holl staff sy'n gymwys yn manteisio ar ôl-ddyddio eu gwasanaeth pensiynadwy.

## Cynlluniau sy'n derbyn Arian Grant

42 Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o gynlluniau; cyfanswm yr arian a dderbyniwyd yw £1.78m. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r manteision i'r gymuned o ganlyniad i'r cynlluniau hyn, gan gynnwys cynllun y Ffenics, gosod larymau mwg am ddim, a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgarwch Cyfalaf

43 Gosodwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2013, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd, ynghyd ag arian yn cael ei gario drosodd o flynyddoedd blaenorol.

44 Roedd rhagor o oedi cyn dechrau prosiect Wrecsam yn golygu bod y gwariant yn llai na'r disgwyl. Unwaith eto, mae'r gyllideb wedi ei chario drosodd er mwyn gofalu bod arian yn ei le ar gyfer cynllun Wrecsam. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol hefyd o'r oedi ar brosiect Glannau Dyfrdwy. Mae'r materion wedi cael eu datrys erbyn hyn, ac fel gyda Wrecsam bydd y gyllideb yn cael ei chario drosodd.

45 Roedd tanwariant ar y gyllideb ar gyfer y gwaith cynnal a chadw a mân waith adeiladau a oedd yn yr arfaeth gan fod rhai eitemau bychain o wariant cyfalaf ar waith cynnal a chadw wedi eu trosglwyddo i'r refeniw am y rhesymau a roddir ym mharagraff 14 uchod. Cafodd y gwaith cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ei ariannu o'r gyllideb a gariwyd drosodd o 2013-14 ac na ddangoswyd fel rhan o gyllideb wreiddiol 2014-15.

46 Mae'r gwaith ar Orsaf Dân Nefyn ar fin cael ei gwblhau ac roedd y gwariant ychwanegol yn erbyn y gyllideb yn rhan o'r gyllideb a gariwyd drosodd o 2013-14.

47 Mae'r gwaith ar Orsaf Dân Tywyn wedi cychwyn, a disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei wneud yn 2015-16. Caiff y gyllideb ei chario drosodd i ymorol am y gwaith yn 2015-16.

**ARGYMHELLIAD**

48 Argymhellir fod yr Aelodau'n cymeradwyo:-

(i) trosglwyddo'r tanwariant i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel y nodir ar dudalen 3 o atodiad A;
(ii) trosglwyddo rhwng y cronfeydd a'r darpariaethau fel y nodir yn atodiad B.